# Lwybr Arfordir Cymru,
# Arolwg Busnes 2024

**Julie Hollingsworth, Cyfarwyddwr Cyswllt**
jhollingsworth@djsresearch.com

**Clare Rapkins, Uwch-reolwr Ymchwil**
crapkins@djsresearch.com

**Emily Ward, Uwch-swyddog Gweithredol Ymchwil**
eward@djsresearch.com

Llwybr Arfordir Cymru
Wales Coast Path

Cyfoeth Naturiol Cymru
Natural Resources Wales

djs research

# Cynnwys


3 Cefndir a methodoleg

6 Proffiliau busnes

11 Pwysigrwydd y llwybr i fusnesau

17 Ansawdd y llwybr

20 Hyrwyddo’r llwybr

32 Casgliadau ac argymhellion

# **Lwybr Arfordir Cymru,**
# Cefndir a Methodoleg



# Cefndir a Methodoleg

## Prif nod yr arolwg hwn yw gwella dealltwriaeth Cyfoeth Naturiol Cymru a rhanddeiliaid eraill o'r cymorth sydd ei angen ar fusnesau i fanteisio i'r eithaf ar eu lleoliad a'r cyfleoedd a gyflwynir gan lwybrau pellter hir Cymru, sef Llwybr Arfordir Cymru (gan gynnwys Llwybr Arfordir Sir Benfro), Llwybr Cenedlaethol Clawdd Offa a Llwybr Cenedlaethol Glyndŵr.

Yn gyffredinol, mae'r amcanion yn ymwneud â'r holl lwybrau pellter hir; fodd bynnag, mae'r adroddiad hwn yn canolbwyntio'n benodol ar fudd **Llwybr Arfordir Cymru**.

## Mae'r amcanion allweddol yn cynnwys:

- Nodi'r mathau o fusnesau sy'n gweithredu ar y llwybrau neu'n agos atynt.
- Deall y gwasanaethau a ddarperir gan fusnesau sy'n agos at y llwybrau.
- Asesu'r buddion y mae'r llwybrau'n eu rhoi i fusnesau, gan gwmpasu incwm uniongyrchol ac anuniongyrchol a gynhyrchir dros wahanol dymhorau.
- Gwerthuso lefel y cydweithio ymhlith busnesau ar hyd y llwybrau.
- Gofyn am farn ar faterion megis argaeledd trafnidiaeth gyhoeddus, gwelededd, hygyrchedd, arwyddion, marchnata, cefnogaeth, ac unrhyw heriau neu rwystrau sy'n gysylltiedig â'r llwybrau.
- Archwilio'r diddordeb a'r gefnogaeth ar gyfer sefydlu porth busnes pwrpasol ar gyfer Llwybr Arfordir Cymru.
- Hwyluso cymhariaeth ag arolygon blaenorol a gynhaliwyd ar yr un pwnc lle bo hynny'n bosibl neu'n berthnasol.



Cynhaliwyd yr arolwg hwn drwy gyfweliadau ffôn â chymorth cyfrifiadur (CATI). Er mwyn sicrhau bod yr arolwg yn gynhwysol ac yn hygyrch, darparwyd opsiwn ar-lein hefyd.

Er mwyn bod yn gymwys ar gyfer yr arolwg, roedd yn rhaid i fusnesau naill ai ystyried eu hunain yn agos at un o'r llwybrau pellter hir (o fewn pellter cerdded neu daith car fer) neu ddatgan eu manteision busnes o un o'r llwybrau mewn rhyw ffordd.

Ar y cyfan, roedd ychydig dros fil o fusnesau yn rhan o'r arolwg. Roedd **664** ohonynt yng Ngwynedd ac fe'u neilltuwyd i Lwybr Arfordir Cymru, ar y sail mai dyna oedd eu llwybr agosaf neu'r un y cawsant y budd mwyaf ohono. Mae'r adroddiad hwn yn canolbwyntio ar y busnesau hynny yn unig.



I gael manylion llawn y fethodoleg, gweler Arolwg Busnes Llwybr Arfordir Cymru a Llwybrau Cenedlaethol 2024 (adroddiad cyffredinol).

# Canllaw i'r adroddiad hwn

## Talgrynnu

Cyflwynir y canlyniadau yn yr adroddiad hwn fel rhifau cyfan er hwylustod darllen a dehongli. Bydd talgrynnu yn digwydd yng ngham olaf y cyfrifiad er mwyn sicrhau'r cywirdeb gorau posibl. Felly, pan gyflwynir canlyniadau fel % positif, % niwtral neu % negatif, efallai y bydd achosion lle na fydd y canlyniadau'n rhoi cyfanswm o 100%. Ni ddylai'r gwahaniaethau byth fod yn fwy na +/- 1 pwynt%.

## Meintiau sylfaen

Sylwch, y meintiau sylfaen sydd wedi'u cynnwys yw cyfanswm y bobl a ymatebodd i gwestiwn penodol. Gan nad yw pawb wedi ateb pob cwestiwn, gall y sylfaen ar gyfer cwestiynau unigol fod yn is na chyfanswm yr ymatebwyr a ymatebodd i'r arolwg, sydd wedi'u neilltuo i Lwybr Arfordir Cymru, gan gynnwys Llwybr Arfordir Penfro (664).

## Diffiniad o lwybr 'a neilltuwyd'

Ar ôl ateb cyfres o gwestiynau sgrinio i bennu agosatrwydd (S02a, S02b) a phwysigrwydd llwybrau i fusnesau unigol (S03, C01 a C02), neilltuwyd llwybr i fusnesau a gofynnwyd iddynt ymateb i weddill cwestiynau'r arolwg yn seiliedig ar eu llwybr 'penodedig'. Mewn achosion lle'r oedd busnesau wedi'u lleoli'n agos at neu'n elwa o fwy nag un llwybr, cawsant eu neilltuo i'r un a) a oedd yn cynhyrchu'r gyfran uchaf o werthiannau/trosiant neu b) y maent yn fwyaf dibynnol arno ar gyfer eu busnes.

## Cymhariaeth â gwerthoedd 'cyfanswm'

Yn yr adroddiad hwn, mae canlyniadau Llwybr Arfordir Cymru yn cael eu cymharu â'r ffigurau cyfartalog o gyfanswm y sampl ar gyfer pob llwybr. Mae cyfanswm y sampl yn cynnwys busnesau sy'n gysylltiedig â Llwybr Arfordir Cymru, Llwybr Arfordir Sir Benfro, Llwybr Clawdd Offa a Llwybr Cenedlaethol Glyndŵr. Mae'r cyfartaledd cyfun wedi'i labelu fel "Pob llwybr a arolygwyd" yn y siartiau cymharu.

## Meincnodi

Fel rhan o'r adroddiad, rydym wedi cymharu canfyddiadau lle bo'n berthnasol ag astudiaeth flaenorol o 2013. Fodd bynnag, mae gwahaniaethau sylweddol mewn ffocws a methodoleg yn cyfyngu ar gymariaethau uniongyrchol. Asesodd astudiaeth 2013 effaith economaidd Llwybr Arfordir Cymru, gan ganolbwyntio ar fetrigau megis creu swyddi a gwerthuso rôl y llwybr wrth hyrwyddo twristiaeth arfordirol Cymru.

Defnyddiodd arolwg 2024 ddull ehangach, gan ymgysylltu ag ystod ehangach o fusnesau, gan gynnwys y rheini ym meysydd lletygarwch, manwerthu, atyniadau ymwelwyr, trafnidiaeth, gweithgynhyrchu ac adeiladu, er mwyn archwilio nid yn unig effeithiau economaidd ond hefyd bynciau fel ymwybyddiaeth busnesau o'r llwybrau, buddion canfyddedig, adborth ar wasanaethau, a chyfleoedd i gydweithio. O ystyried y cwmpas ehangach hwn, mae ein canfyddiadau'n adlewyrchu amrywiaeth ehangach o brofiadau busnes ar hyd y llwybrau, sy'n cyfyngu ar gymariaethau uniongyrchol â'r astudiaethau cynharach.

Yn ogystal, ers cynnal yr arolwg blaenorol dros ddegawd yn ôl, mae'r dirwedd fusnes ac ymddygiad ymwelwyr o fewn y sector twristiaeth yn debygol o fod wedi esblygu. Mae Llwybr Arfordir Cymru wedi esblygu o fod yn ased twristiaeth newydd yn 2013 i fod yn rhan aeddfed ac integredig o dirwedd twristiaeth Cymru erbyn 2024. Felly er ein bod wedi gwneud cymariaethau lle bo modd, mae'n werth nodi bod newidiadau mewn dynameg y farchnad, ymddygiad defnyddwyr, ac amodau economaidd dros amser yn golygu efallai na fydd canlyniadau'r gorffennol hyn yn adlewyrchu cyflwr presennol y diwydiant yn llawn.

**Sylwch – mae Llwybr Arfordir Sir Benfro wedi'i gategoreiddio fel Llwybr Cenedlaethol ond mae hefyd yn rhan o Lwybr Arfordir Cymru. Am y rheswm hwn, mae busnesau sydd wedi'u neilltuo i Lwybr Arfordir Penfro wedi'u cynnwys yng nghanlyniadau'r llwybrau unigol ac yng nghanlyniadau Llwybr Arfordir Cymru. Drwy gydol yr adroddiad hwn, wrth gyfeirio at Lwybr Arfordir Cymru, rydym yn cyfeirio at Lwybr Arfordir Cymru gan gynnwys Llwybr Arfordir Penfro.**


# **Lwybr Arfordir Cymru,** Proffiliau Busnes




# Proffiliau busnes (I)

Roedd y 664 o fusnesau ar hyd Llwybr Arfordir Cymru yn cynrychioli ystod o sectorau, gyda 54% yn y sectorau llety neu fanwerthu. Mae 14% arall yn gweithio yn y sector lletygarwch ac arlwyo. Yn gyffredinol, mae 86% o fusnesau yn y sector preifat.

## Sector




## Math o fusnes





**Sylfaen:** Busnesau a neilltuwyd i Lwybr Arfordir Cymru (664). **C05B.** Pa un o'r canlynol sy'n crynhoi gweithgareddau eich prif fusnes orau? **C01.** Pa un o'r canlynol sy'n disgrifio eich busnes orau?


# Proffiliau Busnes (II)

Mae'r rhan fwyaf o'r busnesau ar hyd Llwybr Arfordir Cymru yn cyflogi llai na 50 aelod o staff. Mae microfusnesau gyda gweithlu o 0-9 o weithwyr yn cyfrif am 58% o'r busnesau sydd wedi'u neilltuo i'r llwybr. Mae 35% arall yn fusnesau bach gyda rhwng 10-49 o weithwyr. Hefyd, mae gan 52% o fusnesau drosiant o £300,000 neu lai.

## Maint y busnes




## Trosiant





**Sylfaen:** Busnesau a neilltuwyd i Lwybr Arfordir Cymru (664) **C07A/B** Gan gynnwys chi eich hun, faint o staff llawn amser a rhan amser parhaol a gyflogir gan eich busnes? **C02**. Beth oedd trosiant bras eich busnes (neu werth gwerthiant) yn eich blwyddyn ariannol ddiwethaf?


# Proffiliau busnes (III)

Mae busnesau ar hyd Llwybr Arfordir Cymru yn amrywio o ran deiliadaeth. Mae 48% wedi'u sefydlu ers 20+ mlynedd, tra bo cyfran fechan wedi agor o fewn yr ychydig flynyddoedd diwethaf (6% wedi bod ar agor am 2 flynedd neu lai). Mae 81% o'r busnesau hyn yn gweithredu o un lleoliad yng Nghymru, ac mae gan 14% arall sawl safle yng Nghymru.

## Nifer y safleoedd




## Daliadaeth y busnes






**Sylfaen:** Busnesau a neilltuwyd i Lwybr Arfordir Cymru (664). **C06.** A yw eich busnes yn gweithredu o un lleoliad neu eiddo, neu leoliadau neu adeiladau lluosog? **C04.** Oddeutu pa mor hir mae eich busnes wedi bod yn gweithredu o'r lleoliad hwn?

# Proffiliau busnes (IV)


Mae 82% o fusnesau ar hyd Llwybr Arfordir Cymru ar agor drwy gydol y flwyddyn. Mae 41% o fusnesau yn fwyaf tebygol o gyrraedd uchafbwynt yn ystod misoedd yr haf, tra bod 27% arall yn nodi nad yw eu busnes yn dymhorol o gwbl.

## Busnes ar agor drwy'r flwyddyn





## Tymor brig




**Sylfaen:** Busnesau a neilltuwyd i Lwybr Arfordir Cymru (664). **Cw09a.** A yw eich busnes ar agor drwy'r flwyddyn? **C09B**. A oes yna dymor neu amser penodol o'r flwyddyn pryd y mae'r defnydd o'ch cynhyrchion neu wasanaethau ar ei uchaf o ganlyniad i Lwybr Arfordir Cymru?




# **Lwybr Arfordir Cymru,**
Pwysigrwydd y llwybr i fusnesau

Llwybr Arfordir Cymru
Wales Coast Path

# Proffiliau busnes – yn benodol i'r llwybr (I)

Mae 39% o fusnesau ar hyd Llwybr Arfordir Cymru yn cael rhyw fath o fudd o fodolaeth y llwybr. Mae dros hanner y busnesau yn ystyried bod y llwybr yn weddol bwysig neu'n bwysig iawn i lwyddiant eu busnes, gyda 17% yn nodi ei fod yn bwysig iawn. Mewn cyferbyniad, mae 33% yn nodi nad yw'r llwybr o fudd i lwyddiant eu busnes o gwbl, ac mae hyn 5 pwynt canran yn is na'r cyfartaledd ar gyfer pob llwybr (38%).

**Pwysigrwydd y llwybr i lwyddiant busnesau**





**Sylfaen:** Busnesau a neilltuwyd i Lwybr Arfordir Cymru (664) **C02**. Sut byddech chi'n disgrifio pwysigrwydd y llwybr i lwyddiant eich busnes?

# Proffiliau busnes – yn benodol i'r llwybr (II)

Mae 89% o'r busnesau sy'n nodi bod Llwybr Arfordir Cymru yn eithaf pwysig i'w busnesau yn nodi bod y llwybr a'r defnyddwyr yn gyfrifol am ran o'u trosiant. Yn benodol, dywed 63% ei fod yn cynhyrchu 1-10% o werthiant/trosiant, a dywed 10% fod y llwybr yn cynhyrchu dros 25% o'u gwerthiant/trosiant.

**Canran y gwerthiannau/trosiant a gynhyrchir gan ddefnyddwyr y llwybr / bodolaeth y llwybr**





**Sylfaen:** Busnesau sy'n nodi bod gan Lwybr Arfordir Gymru rywfaint o bwysigrwydd i'w busnes (664) **C03.** Pa ganran o'ch gwerthiant neu drosiant a gynhyrchir gan ddefnyddwyr Llwybr Arfordir Cymru neu y gellir ei phriodoli i'w bodolaeth mewn rhyw ffordd?


# Manteision y llwybr i fusnesau

Mae busnesau ar hyd Llwybr Arfordir Cymru yn sylweddol fwy tebygol na'r cyfartaledd o ddweud bod y llwybr wedi gwneud rhywfaint o wahaniaeth i'w busnes (54% v 48%). Cynnydd mewn ymwelwyr a gwerthiant yw'r manteision mwyaf a nodir. At hynny, mae'r cynnydd mewn ymwelwyr yn fwy buddiol nawr nag yn 2013, pan ddywedodd 23% yn unig y bu effaith. Fodd bynnag, yn 2013, dywedodd 16% eu bod wedi cyflwyno gwasanaethau newydd o ganlyniad i'r llwybr, sydd bron ddwywaith faint sy'n adrodd yr un peth heddiw (9%). Mae rhwng 5-9% o fusnesau sydd wedi nodi cynnydd mewn cwsmeriaid, gwerthiant neu staff o ganlyniad i'r llwybr, yn dweud bod yr effaith wedi bod yn sylweddol.

## Budd i fusnesau





## Maint y budd (% o'r rhai a ddywedodd fod hyn wedi cael effaith ar yr agweddau hyn)




**Sylfaen:** Yr holl fusnesau a neilltuwyd i Lwybr Arfordir Cymru (664) **C24a.** Ydych chi'n meddwl bod presenoldeb Llwybr Arfordir Cymru wedi arwain neu wedi cyfrannu at unrhyw un o'r canlynol ar gyfer eich busnes? **Sylfaen:** Lle mae effaith ar bob un yn C024a_4-6/1 (Mae maint y sylfaen yn amrywio yn ôl datganiad) **C24b.** I ba raddau mae presenoldeb Llwybr Arfordir Cymru wedi effeithio ar y canlynol? *Sylwer – ni ddangosir labeli data <5% er taclusrwydd.
*RHYBUDD – maint sylfaen isel

# Manteision y llwybr i fusnesau - o gymharu â'r cyfanswm

Mae 48% o fusnesau'n cytuno bod presenoldeb Llwybr Arfordir Cymru wedi cynyddu'r niferoedd sy'n ymweld â'u busnes, gyda 36% yn nodi ei fod wedi cynyddu eu trosiant. Dywed 12% o fusnesau eu bod wedi sicrhau cyflogaeth i aelodau staff, wedi penderfynu ar leoliad eu busnes (11%) a/neu eu bod wedi cyflwyno cynnyrch/gwasanaethau newydd (9%) o ganlyniad i'w hagosrwydd at Lwybr Arfordir Cymru. Yn gyffredinol, mae canran y busnesau a ddywedodd fod gan Lwybr Arfordir Cymru **rywfaint** o fudd i'w busnesau 6 pwynt% yn uwch na'r cyfartaledd ar gyfer yr holl fusnesau a arolygwyd (54% v 48%).





**Sylfaen:** Yr holl fusnesau a neilltuwyd i Lwybr Arfordir Cymru (664) **C24a.** Ydych chi'n meddwl bod presenoldeb Llwybr Arfordir Cymru wedi arwain neu wedi cyfrannu at unrhyw un o'r canlynol ar gyfer eich busnes?


# Pwysigrwydd y llwybr i fusnesau

Mae 23% o fusnesau'n meddwl y bydd Llwybr Arfordir Cymru yn dod yn bwysicach i'w llwyddiant yn y dyfodol, yn bennaf oherwydd y cynnydd posibl mewn twristiaeth o ganlyniad i hyrwyddo llwybrau (44%). Mae hyn yn cymharu â 40% o fusnesau a oedd yn ymwybodol o Lwybr Arfordir Cymru yn arolwg 2013 a oedd yn meddwl y byddai'r llwybr yn dod yn bwysicach, gan awgrymu efallai bod busnesau eisoes wedi manteisio i'r eithaf ar y potensial neu eu bod bellach yn rhagweld llai o newid.

## Newid ym mhwysigrwydd y llwybr i lwyddiant busnes (cyfanswm)




## Pam?




"Mae pobl yn magu mwy o ddiddordeb yn y mathau hyn o wyliau. Mae gwyliau cerdded yn boblogaidd iawn."

"Mae arwyddion gwell yn dod â mwy o ymwybyddiaeth a gwybodaeth o'r hyn sydd o'u cwmpas a bydd hyn yn dod â'r budd mwyaf inni."

"Rwy'n meddwl bod pobl eisiau mynd allan yn fwy a mwynhau bod gyda natur."


**Sylfaen:** Yr holl fusnesau a neilltuwyd i Lwybr Arfordir Cymru (664) C25a. A ydych yn ystyried y bydd unrhyw newid yn y dyfodol ym mhwysigrwydd Llwybr Arfordir Cymru i lwyddiant eich busnes? **Sylfaen:** Lle y bydd y llwybr yn dod yn bwysicach (156) **C25b.** Beth yw'r rheswm dros hynny?

# **Lwybr Arfordir Cymru,** Ansawdd y llwybr



# Canfyddiadau o agweddau o’r llwybr


Cyflwynwyd rhestr o chwe agwedd i bob busnes a gofynnwyd iddynt raddio pob un. O'r holl agweddau a gafodd eu graddio, mae busnesau ar eu mwyaf cadarnhaol gyda chynnal a chadw dodrefn y llwybr (50% yn dda / da iawn) ac arwyddion (41% yn dda / da iawn). Mewn cyferbyniad, maent er eu lleiaf cadarnhaol ynghylch hygyrchedd y llwybr (15% yn nodi da/da iawn). Fodd bynnag, rydym yn gweld bod 31% o fusnesau yn dweud nad ydynt yn gwybod o ran mynediad. Gallai hyn fod oherwydd diffyg ymwybyddiaeth a/neu nad yw perchnogion busnes wedi defnyddio'r llwybr.




**Sylfaen:** Busnesau a neilltuwyd i Lwybr Arfordir Cymru (664) C20. Sut fyddech chi'n graddio pob un o'r agweddau canlynol? Ni ddangosir labeli data <5%

# Canfyddiadau o agweddau o'r llwybr – ac eithrio ymatebion 'ddim yn gwybod'

Mae eithrio'r ymatebion 'ddim yn gwybod' yn datgelu stori llawer mwy cadarnhaol. O'r rhai **sy'n ymwybodol**, mae 66% yn credu bod cynnal a chadw dodrefn llwybr yn dda neu'n dda iawn. Mae 50% hefyd yn siarad yn gadarnhaol am arwyddion ar gyfer Llwybr Arfordir Cymru. Er bod hygyrchedd yn dal i gael y sgôr isaf, roedd 21% o'r ymatebwyr sy'n ymwybodol yn graddio hyn yn uchel (6 pwynt% yn uwch na'r ffigur lle cynhwyswyd ymatebion 'ddim yn gwybod').





**Sylfaen:** Pob busnes wedi'i neilltuo i Lwybr Arfordir Cymru – ac eithrio ymatebion 'ddim yn gwybod' **C20**. Sut fyddech chi'n graddio pob un o'r agweddau canlynol? Ni ddangosir labeli data <5% Mae'r sylfaen yn amrywio yn ôl datganiad oherwydd bod ymatebion 'ddim yn gwybod' wedi'u dileu.


# **Lwybr Arfordir Cymru,**
Hyrwyddo'r llwybr



# Ymwybyddiaeth Brandio

Mae gan 71% o fusnesau ar hyd Llwybr Arfordir Cymru o leiaf beth ymwybyddiaeth o frandio'r llwybr, gyda 23% o fusnesau yn datgan eu bod yn 'ymwybodol iawn'. Fodd bynnag, pan ofynnwyd i'r ymatebwyr hynny ddisgrifio'r logo, ni chafodd pob un y manylion yn gywir. Dywedodd 31% yn gywir fod y logo yn las, a dywedodd 21% ei fod yn felyn, ond dim ond 4% a ddywedodd yn gywir fod y logo yn cynrychioli cragen. Yn ogystal, mae 39% yn nodi nad yw'r logo yn gofiadwy.








**Sylfaen**: Busnesau a neilltuwyd i Lwybr Arfordir Cymru (664) C10. I ba raddau ydych chi'n ymwybodol o frandio Llwybr Arfordir Cymru neu sut mae'n cael ei hyrwyddo? **Sylfaen:** Yr holl fusnesau sy'n ymwybodol o frandio Llwybr Arfordir Cymru neu sut mae'n cael ei hyrwyddo (348) C11. Sut byddech chi'n disgrifio brandio (hy. logo) Llwybr Arfordir Cymru?


# Ymwybyddiaeth hysbysebu

Mae 38% o fusnesau ar hyd llwybr Arfordir Cymru wedi gweld rhywfaint o gyhoeddusrwydd neu hysbysebion yn ymwneud â'r llwybr dros y 12 mis diwethaf. Fodd bynnag, mae hyn yn ostyngiad o 25 pwynt% ers 2013, pan oedd 63% o fusnesau ar hyd Llwybr Arfordir Cymru wedi cael cyhoeddusrwydd neu hysbysebu am y llwybr.

**Y % a welodd gyhoeddusrwydd/hysbysebu**




**Lle gwelwyd cyhoeddusrwydd/hysbysebu**




Mae hysbysebu'n fwyaf tebygol o fod wedi'i weld trwy Facebook (30%), yna'r teledu (20%), taflen neu lyfryn (16%) ac Instagram (12%).

Mae hyn hefyd yn wahanol i ganfyddiadau'r gorffennol.

Yn 2013, y lleoedd mwyaf tebygol o fod wedi dod ar draws cyhoeddusrwydd oedd ar y teledu (43%) , mewn erthygl papur newydd (24%) neu mewn taflen neu lyfryn (16%).

Mae hyn yn dangos cynnydd amlwg mewn hysbysebu cyfryngau cymdeithasol, a faint sy'n gweld hyrwyddo ar lwyfannau digidol EW0 Yn yr un modd, mae'r cyhoedd yn llai tebygol o weld hysbysebion mewn deunyddiau printiedig na deng mlynedd yn ôl.

**Sylfaen:** Busnesau a neilltuwyd i Lwybr Arfordir Cymru (664) **C12.** Dros y flwyddyn ddiwethaf, a ydych chi wedi gweld neu glywed unrhyw gyhoeddusrwydd, hysbysebu neu wybodaeth am Lwybr Arfordir Cymru? **Sylfaen:** Pob ymatebydd sydd wedi gweld neu glywed cyhoeddusrwydd, hysbysebu neu wybodaeth (255) **C13.** A allwch ddweud wrthyf ble neu sut yr ydych chi wedi gweld cyhoeddusrwydd, hysbysebu neu wybodaeth ar gyfer Llwybr Arfordir Cymru?

*Sylwer – sôn am <5% heb ei ddangos

**Slide 22**

---

**EW0** Note for NRW - we have checked and magazines and newspapers were kept separate in the 2013 report, so this comment still stands

Emily Ward, 2025-02-06T13:39:56.231

# Canfyddiadau am hysbysebu

Gofynnwyd i bob busnes sydd wedi gweld neu glywed unrhyw gyhoeddusrwydd, hysbysebu neu wybodaeth am Lwybr Arfordir Cymru roi adborth ar amlder ac effeithiolrwydd (o ran denu ymwelwyr/defnyddwyr a bod o fudd i lwyddiant busnesau yn y dyfodol). Mae 81% o'r busnesau o'r farn bod 'effeithiolrwydd' cyhoeddusrwydd diweddar i ddenu defnyddwyr yn 'weddol' o leiaf. Yn ogystal, mae 64% o'r farn bod y budd o ran llwyddiant eu busnes yn y dyfodol yn dda / yn weddol. Yn yr un modd, mae 76% o fusnesau yn teimlo bod amlder hysbysebu yn effeithiol. Mae'r canlyniadau hyn yn unol â'r tueddiadau cyffredinol o'r sampl gyfan.

**"Sut fyddech chi'n graddio'r cyhoeddusrwydd, yr hysbysebu neu'r wybodaeth rydych chi wedi'u gweld neu eu clywed am y llwybr yn ystod y flwyddyn ddiwethaf, o ran…?"**

| | Da | Gweddol | Gwael | Ddim yn gwybod |
|---|---|---|---|---|
| **Amlder** | 35% (37% ar gyfer yr holl lwybrau a arolygwyd) | 41% (36% ar gyfer yr holl lwybrau a arolygwyd) | 18% (20% ar gyfer yr holl lwybrau a arolygwyd) | 5% (7% ar gyfer yr holl lwybrau a arolygwyd) |
| **Effeithiolrwydd o ran denu ymwelwyr i'r llwybr** | 50% (50% ar gyfer yr holl lwybrau a arolygwyd) | 31% (28% ar gyfer yr holl lwybrau a arolygwyd) | 11% (11% ar gyfer yr holl lwybrau a arolygwyd) | 8% (11% ar gyfer yr holl lwybrau a arolygwyd) |
| **Effeithiolrwydd o ran helpu neu fod o fudd i lwyddiant eich busnes** | 30% (29% ar gyfer yr holl lwybrau a arolygwyd) | 34% (33% ar gyfer yr holl lwybrau a arolygwyd) | 18% (19% ar gyfer yr holl lwybrau a arolygwyd) | 18% (19% ar gyfer yr holl lwybrau a arolygwyd) |




**Sylfaen:** Pob ymatebydd sydd wedi gweld neu glywed cyhoeddusrwydd, hysbysebu neu wybodaeth (255) **C13.** Beth yw eich barn am y cyhoeddusrwydd, yr hysbysebu neu'r wybodaeth yr ydych wedi'u gweld neu eu clywed am Lwybr Arfordir Cymru yn y flwyddyn ddiwethaf, o ran…?

# Derbyn cyfathrebiadau uniongyrchol

Dim ond 10% o fusnesau sy'n cofio iddynt gael cyfathrebiadau uniongyrchol am Lwybr Arfordir Cymru yn ystod y flwyddyn ddiwethaf. O'r 66 busnes sy'n cofio gweld cyfathrebiadau uniongyrchol yn ystod y flwyddyn ddiwethaf, y sianeli mwyaf cyffredin ar gyfer derbyn y wybodaeth hon yw trwy e-bost (48%), ac yna Facebook (21%). Mae 17% wedi derbyn cylchlythyr am Lwybr Arfordir Cymru o fewn y flwyddyn ddiwethaf.

**Y ganran (%) a dderbyniodd cyfathrebiadau uniongyrchol**




**Sylfaen:** Busnesau a neilltuwyd i Lwybr Arfordir Cymru (664) C15. Dros y flwyddyn ddiwethaf, a ydych yn cofio derbyn unrhyw gyfathrebiadau uniongyrchol am Lwybr Arfordir Cymru?

# Derbyn cyfathrebiadau uniongyrchol

**Graddio cyfathrebiadau uniongyrchol a dderbyniwyd yn ystod y flwyddyn ddiwethaf, o ran… ***

| | Da | Gweddol | Gwael | Ddim yn gwybod |
|---|---|---|---|---|
| **Amlder** | 41% (42% ar gyfer yr holl lwybrau a arolygwyd) | 33% (36% ar gyfer yr holl lwybrau a arolygwyd) | 17% (14% ar gyfer yr holl lwybrau a arolygwyd) | 9% (8% ar gyfer yr holl lwybrau a arolygwyd) |
| **Effeithiolrwydd o ran denu ymwelwyr i'r llwybr** | 45% (49% ar gyfer yr holl lwybrau a arolygwyd) | 30% (27% ar gyfer yr holl lwybrau a arolygwyd) | 11% (10% ar gyfer yr holl lwybrau a arolygwyd) | 14% (13% ar gyfer yr holl lwybrau a arolygwyd) |
| **Effeithiolrwydd o ran helpu neu fod o fudd i lwyddiant eich busnes** | 35% (40% ar gyfer yr holl lwybrau a arolygwyd) | 33% (34% ar gyfer yr holl lwybrau a arolygwyd) | 23% (18% ar gyfer yr holl lwybrau a arolygwyd) | 9% (9% ar gyfer yr holl lwybrau a arolygwyd) |

Mae 75% o fusnesau sy'n cofio eu derbyn yn teimlo bod y cyfathrebu uniongyrchol diweddar yn 'weddol' neu'n 'dda' o ran denu ymwelwyr i'r llwybr. Maent hefyd yn gadarnhaol ynghylch amlder cyfathrebu uniongyrchol, gyda chyfran debyg yn graddio'r agwedd hon yn weddol o leiaf (74%).

Mae busnesau ychydig yn llai cadarnhaol o ran effeithiolrwydd cyfathrebu uniongyrchol o ran helpu neu fod o fudd i lwyddiant eu busnes (68% v 74% cyfanswm).


Nid oes unrhyw wahaniaethau arwyddocaol o gymharu â'r cyfartaledd ar gyfer yr holl lwybrau a arolygwyd.

**Sylfaen:** Yr holl fusnesau a neilltuwyd i Lwybr Arfordir Cymru sy'n cofio derbyn cyfathrebiadau uniongyrchol (66) **C16** Beth yw eich barn am y cyfathrebiadau uniongyrchol a gawsoch yn ystod y flwyddyn ddiwethaf am Lwybr Arfordir Cymru, o ran… ? *RHYBUDD – maint sylfaen isel

# Hyrwyddo'r llwybr gan fusnesau

Mae 52% o fusnesau yn hyrwyddo Llwybr Arfordir Cymru mewn rhyw ffordd, gydag 20% yn nodi bod y llwybr yn cael ei grybwyll yn benodol yn eu deunyddiau marchnata. Mae'r ffigur hwn yn uwch na'r hyn a welwyd yn 2013 (15%). Mae 40% arall o fusnesau yn hyrwyddo'r llwybr ar lafar, a 9% yn sôn am lwybr, ond nid yn ôl enw (o'i gymharu â 19% yn gwneud hynny yn 2013).

*** Sylwch – cwestiwn amlddewis oedd hwn, sy'n golygu na fydd y bariau'n cyrraedd 100%.**
Cyfrifwyd canran y busnesau sy'n hyrwyddo'r llwybr mewn rhyw ffordd drwy dynnu'r ganran sy'n dweud nad ydynt yn ei hyrwyddo (46%) a'r rhai nad ydynt yn sicr (1%) o 100.





**Sylfaen:** Busnesau a neilltuwyd i Lwybr Arfordir Cymru (663) **C17**. A ydych chi'n sôn am neu'n hyrwyddo Llwybr Arfordir Cymru yn unrhyw un o'ch deunyddiau marchnata eich hun, er enghraifft ar eich gwefan neu sianeli cyfryngau cymdeithasol, neu wrth siarad â'ch cwsmeriaid?

# Hyrwyddo’r llwybr gan fusnesau

Gofynnwyd i bob un o’r 33 busnes sy’n sôn am Lwybr Arfordir Cymru yn eu deunyddiau marchnata pa mor amlwg ydyw. Mae 2% yn dweud mai dyma'r brif thema a 25% yn ei hystyried yn elfen bwysig. Mae 40% arall yn nodi y cyfeirir at rai manylion. Mae'r 32% sy'n weddill yn dweud eu bod yn sôn yn gyflym yn unig.

**Amlygrwydd y llwybr mewn deunyddiau marchnata**




Yn ystod y 10 mlynedd diwethaf, mae'n ymddangos bod y llwybr wedi dod yn llai o nodwedd amlwg mewn deunyddiau marchnata.

Yn 2013, roedd Llwybr Arfordir Cymru yn rhan bwysig o farchnata 45% o fusnesau, sydd 20 pwynt % yn uwch na heddiw.


Yn yr un modd, yn 2013, y llwybr oedd prif thema deunydd 6% o fusnesau. Nawr, dim ond 2% yw'r ffigur hwnnw.

**Sylfaen:** Yr holl fusnesau sy'n crybwyll Llwybr Arfordir Cymru yn eu deunyddiau marchnata (188) **C18**. Pa un o’r canlynol sy’n disgrifio orau pa mor amlwg yw Llwybr Arfordir Cymru yn eich marchnata?

# Hyrwyddo'r llwybr

Er bod 21% o fusnesau yn meddwl bod Llwybr Arfordir Cymru eisoes yn cael ei hyrwyddo ddigon, mae cyfran uwch o lawer (72%) yn credu nad yw'n cael ei hyrwyddo'n ddigonol.


**Yn gyffredinol, ydych chi'n meddwl bod y llwybr yn cael ei hyrwyddo...?**




**Sylfaen:** Yr holl fusnesau a neilltuwyd i Lwybr Arfordir Cymru (664) **C19**. Yn gyffredinol, a ydych chi'n meddwl bod Llwybr Arfordir Cymru yn cael ei hyrwyddo...?

# Annog ymweliadau


Cyflwynwyd i fusnesau bedwar gwelliant posibl i'r llwybr a gofynnwyd iddynt ddatgan i ba raddau y maent yn cytuno neu'n anghytuno a oes eu hangen. Mae 77% o fusnesau'n cytuno bod angen mwy o wybodaeth / gwell gwybodaeth am sut i gael mynediad i'r llwybr mewn car. Dilynir hyn yn agos gan fwy/gwell gwybodaeth am drafnidiaeth gyhoeddus megis amserlenni (76%) a gwell darpariaeth trafnidiaeth gyhoeddus (74%). Ar nodyn mwy cadarnhaol, dim ond 45% o fusnesau sy'n meddwl bod angen gwell cysylltiadau ffordd.




**Sylfaen:** Yr holl fusnesau a neilltuwyd i Lwybr Arfordir Cymru (664) C21. I ba raddau a ydych yn cytuno neu'n anghytuno bod angen pob un o'r canlynol i annog mwy o bobl i ymweld â Llwybr Arfordir Cymru?
*Sylwer – ni chaiff labeli data <3% eu dangos er taclusrwydd.

# Gwella mynediad

Pan ofynnwyd mewn cwestiwn agored pa welliannau sydd eu hangen i wella mynediad, prif argymhelliad busnesau ar gyfer Llwybr Arfordir Cymru yw gwella cysylltiadau trafnidiaeth, gyda 29% yn gwneud hyn yn flaenoriaeth. Mae 18% yn credu y gallai cwsmeriaid/ymwelwyr elwa o wybodaeth fwy cyffredinol am yr ardal a'r llwybr, ac 16% yn credu, er mwyn helpu cwsmeriaid i gael mynediad a theithio o gwmpas y llwybr, fod angen codi proffil Cymru a'r llwybrau sydd yma.




"Mae angen mwy o arwyddion ar gyfer mynd ar y llwybr yn hawdd ar droed ac mewn car."


"Angen gwell gwybodaeth am y gwasanaethau bws sydd ar gael a mwy o wasanaethau bws. Yn gyffredinol, mae'n rhaid i ni ddal tacsis oherwydd nid oes bysiau ar gael pan fyddwn yn gorffen ein teithiau cerdded."

"Cadwch y canolfannau ymwelwyr lleol ar agor oherwydd eu bod yn darparu cryn dipyn o wybodaeth a hefyd yn atyniad mawr i ymwelwyr â'r ardal leol."

**Sylfaen:** Yr holl fusnesau a neilltuwyd i Lwybr Arfordir Cymru (664) **C22**. Pa welliannau (os o gwbl) ydych chi'n meddwl sydd eu hangen i helpu mwy o gwsmeriaid/ymwelwyr deithio o gwmpas neu gael mynediad i'r llwybrau?
*Sylwer – ymatebion <5% heb eu dangos.

# Gwybodaeth i gefnogi cwsmeriaid busnes / defnyddwyr llwybr

Yr wybodaeth a grybwyllir amlaf y mae busnesau'n credu y byddai eu cwsmeriaid yn ei chael fwyaf buddiol yn ymwneud â llwybrau dolennog a llwybrau cylchol (20%), a theithlenni (16%) i gerddwyr.




## Ymatebion 'eraill'

"Manylion rhywogaethau arbennig o anifeiliaid i edrych arnynt ar y ffordd."

"Gwasanaethau brys, gwybodaeth am signal ffonau symudol o amgylch yr ardal."

**Sylfaen:** Y holl fusnesau a neilltuwyd i Lwybr Arfordir Cymru (663) **C30**. Pa fath o wybodaeth ydych chi'n meddwl fyddai fwyaf defnyddiol i'ch cwsmeriaid neu ddefnyddwyr eraill Llwybr Arfordir Cymru? *Sylwer – ymatebion <5% heb eu dangos

# **Lwybr Arfordir Cymru,**
Casgliadau ac argymhellion



## Casgliadau

**Dywed 54% o fusnesau fod Llwybr Arfordir Cymru yn cael effaith gadarnhaol ar eu busnesau**

Yn benodol, mae 48% o fusnesau'n cytuno bod presenoldeb y llwybr wedi cynyddu nifer yr ymwelwyr â'u busnes. Mae 36% yn credu ei fod wedi hybu eu gwerthiant/trosiant.

**Mae hanner y busnesau'n hapus gyda'r gwaith cynnal a chadw ar ddodrefn y llwybr**

Fodd bynnag, mae busnesau ar hyd Llwybr Arfordir Cymru yn dangos peth pryder ynghylch cynnal a chadw'r cyfleusterau ar ei hyd (27% yn wael/gwael iawn) a'i hygyrchedd i'r rheini â symudedd cyfyngedig neu fygis (37% yn wael/gwael iawn).

**Er bod 52% o fusnesau'n hybu'r llwybr mewn rhyw ffordd, dim ond 20% o fusnesau sy'n crybwyll Llwybr Arfordir Cymru yn benodol yn eu deunyddiau marchnata.**

Yn lle hynny, mae busnesau yn llawer mwy tebygol o sôn am y llwybr ar lafar (40%).

## Argymhellion

**Efallai y byddai'n ddefnyddiol archwilio mentrau i fanteisio ymhellach ar ddylanwad y llwybr ar fusnesau lleol.**

Gallai cydweithio â busnesau i greu cynigion neu ddigwyddiadau sy'n canolbwyntio ar ymwelwyr wella budd y llwybr o ran niferoedd ymwelwyr a gwerthiannau.

**Er bod gwaith cynnal a chadw ar ddodrefn y llwybr yn cael ei barchu, gallai mynd i'r afael â phryderon am gynnal a chadw cyfleusterau a gwella hygyrchedd i'r rhai â symudedd cyfyngedig neu fygis wella profiad cyffredinol ymwelwyr yn sylweddol.**

**Er mwyn helpu busnesau i hyrwyddo Llwybr Arfordir Cymru yn well, gallai rhoi adnoddau a chymhellion iddynt gynnwys y llwybr yn eu deunyddiau marchnata fod yn effeithiol.**

Gallai hyn annog mwy o fusnesau i fynd ati i hyrwyddo'r llwybr y tu hwnt i wneud hynny ar lafar.

## Casgliadau

**Nid yw 72% o fusnesau ar hyd Llwybr Arfordir Cymru yn meddwl bod y llwybr yn cael ei hyrwyddo ddigon.**

Pan ofynnwyd mewn cwestiwn agored beth allai wella mynediad i'r llwybr, y prif ymateb oedd gwella'r cysylltiadau trafnidiaeth (29%). Hoffai 16% hefyd weld y sefydliad yn gweithio'n galetach i godi proffil Cymru a'i theithiau cerdded arfordirol.

**Pan ofynnwyd pa wybodaeth y gellid ei darparu i gefnogi cwsmeriaid busnes/defnyddwyr llwybrau, y prif argymhelliad oedd darparu teithlenni cerdded i gerddwyr.**

Hoffai 15% hefyd i fannau o ddiddordeb gael eu hamlygu ymhellach.

## Argymhellion

**O ystyried bod llawer o fusnesau'n teimlo nad yw'r llwybr yn cael ei hyrwyddo'n ddigonol, gallai fod yn fuddiol buddsoddi mewn ymgyrch sy'n gwella argaeledd gwybodaeth am gysylltiadau trafnidiaeth ac amlygrwydd cyffredinol Cymru a'i llwybrau arfordirol.**

Gallai cryfhau'r agweddau hyn ddenu mwy o ymwelwyr a chefnogi'r economi leol yn well.

**Er mwyn cynorthwyo cwsmeriaid busnesau a defnyddwyr llwybrau yn well, dylid ystyried creu deunyddiau sy'n cynnwys llwybrau a theithlenni cerdded ynghyd â mannau o ddiddordeb a amlygwyd.**

Gallai dosbarthu'r rhain i fusnesau lleol gyfoethogi profiad yr ymwelydd trwy dywys cerddwyr nid yn unig at eu llwybrau ond hefyd i safleoedd nodedig ar hyd y ffordd, gan ychwanegu gwerth at eu taith ac annog archwilio'r ardal.

# For more information

**Julie Hollingsworth, Cyfarwyddwr Cyswllt**
jhollingsworth@djsresearch.com

**Clare Rapkins, Uwch-reolwr Ymchwil**
crapkins@djsresearch.com

**Emily Ward, Uwch-swyddog Gweithredol Ymchwil**
eward@djsresearch.com

**Head office:** 3 Pavilion Lane, Strines, Stockport, Cheshire, SK6 7GH

**Leeds office:** Regus, Office 18.09, 67 Albion Street Pinnacle, 15th–18th Floors, Leeds, LS1 5AA

**+44 (0)1663 767 857 | djsresearch.co.uk**

Llwybr Arfordir Cymru
Wales Coast Path